



SWYDD DDISGRIFIAD

TEITL Y SWYDD:	CYDLNYDD PROSIECTAU LLESIANT (swydd 6 mis)
RHEOLWR LLINELL:	Rheolwr Cymorth a Chynrychiolaeth i Fyfirwyr
CYFLOG:	Gradd Cydlynedd UMAber: £19-21k ar hyn o bryd
ORIAU:	Oriau llawn-amser, blynyddol (36.5 awr yr wythnos, ond gallai hefyd fod yn rhan-amser os byddai hynny'n well gan ddeilydd y swydd - o leiaf 15 awr yr wythnos), i gael eu gweithio'n hyblyg trwy gytundeb â'r rheolwr llinell.
DYDDIAD A YSGRIFENNWYD:	Tachwedd 2020

DIBEN Y RÔL

Darparu a datblygu ymgyrchoedd, gweithgareddau a digwyddiadau Undeb y Myfyrwyr i gynorthwyo llesiant ac iechyd meddwl myfyrwyr. Bod yn aelod gweithredol o staff allgymorth sy'n rhagweithiol wrth siarad â myfyrwyr, gweithio gyda nhw a datblygu eu dealltwriaeth ynghylch y ffactorau allweddol sy'n ymwneud ag iechyd meddwl cadarnhaol a llesiant.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1. Ymgyrchoedd, Gweithgareddau a Digwyddiadau

- Bod yn gyfrifol am gynnal ymgyrchoedd, gweithgareddau a digwyddiadau iechyd meddwl a llesiant yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn academiaidd.
- Sicrhau y caiff cyfleoedd ac effeithiau ymgyrchoedd, gweithgareddau neu fentrau iechyd meddwl a llesiant eu cyfathrebu'n eang ymysg yr aelodau i hybu ymwybyddiaeth a chraffu.
- Adrodd yn ôl ar themâu a phryderon a godir yn gyson gan y cynrychiolwyr academiaidd ynghylch iechyd meddwl a llesiant i'r Swyddog Llesiant ac aelodau perthnasol o'r tîm.

- Cynorthwyo swyddogion UMAber i gynrychioli'n effeithlon a gweithredu ar faterion llesiant myfyrwyr,
- Hyrwyddo egwyddor o bartneriaeth rhwng myfyrwyr a staff y Brifysgol wrth ddarparu cymorth llesiant.
- Gweithio gyda chydweithwyr yn UMAber a Phrifysgol Aber i sicrhau bod systemau, polisïau a phrosesau'r Brifysgol yn effeithiol, er budd pawb.
- Rhoi cymorth i fyfyrwyr ymgyrchu a gweithredu ar faterion iechyd meddwl a llesiant.

2. Eiriolaeth a Gwybodaeth

- Darparu gwybodaeth ac arweiniad o ansawdd uchel i fyfyrwyr ar faterion iechyd meddwl a llesiant.
- Atgyfeirio myfyrwyr at wasanaethau perthnasol eraill yn effeithiol.
- Defnyddio cyfathrebiadau UMAber i godi ymwybyddiaeth o faterion myfyrwyr sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a llesiant.
- Hyrwyddo a gwarchod annibyniaeth UMAber a gwerth annibyniaeth i fyfyrwyr.
- Hyrwyddo argaeledd y Gwasanaeth Cynghori'n gadarnhaol ac yn rhagweithiol ar draws cymuned y myfyrwyr.
- Cwrdd, gohebu a chydlynu â phartneriaid allanol a mewnol ynghylch iechyd meddwl a llesiant.

3. Hyfforddiant a Datblygiad

- Gweithio gyda chydweithwyr allweddol, i gynllunio, paratoi a helpu â threfnu hyfforddiant iechyd meddwl a llesiant rheolaidd i fyfyrwyr, gan gynnwys atal hunanladdiad a gwytnwch.
- Cynorthwyo myfyrwyr i gynnal ymgyrchoedd, gweithgareddau a digwyddiadau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a llesiant, gan gynnwys cwrdd, cynghori a hyfforddi.
- Estyn allan yn rhagweithiol at grwpiau myfyrwyr, grwpiau a chynrychiolwyr rhyddhad, a gweithio gyda nhw ar ymgyrchoedd, gweithgareddau a digwyddiadau iechyd meddwl a llesiant.
- Sefydlu perthnasoedd effeithiol gyda chysylltiadau a phartneriaid allweddol i ddarparu mynediad at gyfleoedd hyfforddi a datblygu i fyfyrwyr.

4. Dyletswyddau eraill:

- Mynychu cyfarfodydd, cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi a all helpu â chyflawni'r tasgau uchod ac a all hyrwyddo buddion UMAber yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Hyrwyddo UMAber yn gadarnhaol, gan gynnal ei werthoedd a'i bolisiau.
- Hyrwyddo UMAber a'n gwaith ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol pan ddaw cyfleoedd i wneud hynny.
- Gweithio o fewn telerau dogfennau llywodraethu'r Undeb, yn bennaf y Cyfansoddiad.
- Cyfrannu at gyhoeddiadau a deunydd gwybodaeth Undeb y Myfyrwyr.

- Cynnal disgwyliadau rhesymol o ran iechyd a diogelwch, gwarchod data, a rheoliadau a deddfwriaethau perthnasol eraill fel sy'n briodol.
- Helpu yn ystod digwyddiadau allweddol Undeb y Myfyrwyr gydol y flwyddyn, gan gynnwys yr Wythnos Groeso a'r Etholiadau
- Bod ag ymagwedd hyblyg at ddyletswyddau a gwaith ac, yn arbennig, mabwysiadu arddull o weithio mewn tîm gydag adrannau a gweithgareddau ar draws yr Undeb cyfan. Gall hyn olygu ymgymryd â dyletswyddau sy'n cynorthwyo adrannau eraill â'u gweithgareddau a'u gwasanaethau
- Mae arferion gorau o ran yr amgylchedd yn gyfrifoldeb holl staff Undeb y Myfyrwyr.
- Cyfrannu at brosiectau'r Undeb a chyfranogi mewn gweithgorau
- Cydymffurfio â disgwyliadau ymddygiad a safonau Undeb y Myfyrwyr yn y gwaith bob dydd

NEWIDIADAU YN Y SWYDD DDISGRIFIAD

Gall y swydd ddisgrifiad hwn newid unrhyw bryd ar ôl ymgynghori â deilydd y swydd.

Ni fwriedir i'r swydd ddisgrifiad hwn fod yn rhestr gynhwysfawr o dasgau a ddaw i ran deilydd y swydd. Serch hynny, mae'n gosod allan prif ddisgwyliadau'r Undeb o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau deilydd y swydd, a gall fod disgwyl i ddeilydd y swydd ymgymryd â gwaith amgen/ychwanegol sy'n gymesur â'r raddfa gyflog.

MANYLEB Y PERSON - CYDLYNYDD PROSIECTAU LLESIANT

MEINI PRAWF	Angen	Cais	Diwrnod y Cyfweliad
CYMWYSTERAU			
Addysg gyffredinol dda, cyfystyr â Lefel A fel arfer	Hanfodol	√	
Cymhwyster llesiant neu iechyd meddwl	Dymunol	√	
PROFIAD			
Profiad o drefnu cyfarfodydd a digwyddiadau sy'n ennyn diddordeb	Hanfodol	√	√
Profiad o gynllunio a chynnal ymgyrchoedd hyrwyddo a chyfathrebu, gan ddefnyddio ystod eang o gyfryngau, yn gynnwys rhwydweithiau cymdeithasol ar-lein a datblygu/rheoli cynnwys ar wefannau.	Hanfodol	√	√
Profiad o egluro a/neu gynghori eraill mewn perthynas â phrosesau a gweithdrefnau cymhleth gan ddefnyddio termau syml a hygyrch yn ysgrifenedig ac wyneb-yn-wyneb.	Hanfodol	√	
Profiad personol o ymgyrchu i greu newid a / neu brofiad o hyrwyddo gwasanaethau neu brosiectau i'r cyhoedd.	Dymunol	√	√
GWYBODAETH			
Gwybodaeth ymarferol o ddulliau gweithredu a thactegau effeithiol ar gyfer ymgyrchoedd iechyd meddwl a llesiant, a sut i fesur effaith	Hanfodol	√	√
Dealltwriaeth o faterion a themâu cyfoes ym maes iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr	Hanfodol	√	√
NODWEDDION / SGILIAU			
Y gallu i roi grym i bobl eraill a'u hysgogi nhw	Hanfodol		√
Y gallu i weithio gydag unigolion, sefyllfaoedd neu sefydliadau cymhleth a chynnal perthnasoedd gwaith cryf.	Hanfodol	√	
Y gallu i weithio'n effeithiol mewn tîm ac ar eich liwt hun; sgiliau da o ran rheoli amser a blaenoriaethu.	Hanfodol	√	√
Agwedd hyderus a brwdfrydig at waith allgymorth, sy'n cynnwys siarad â myfyrwyr	Hanfodol	√	√
Y gallu i oresgyn rhwystrau a phroblemau mewn ffordd adeiladol, gan gadw eich pwyll, yn enwedig o dan bwysau	Hanfodol	√	√
Medrus o ran TG a dealltwriaeth weithredol o Microsoft Office, Word ac Excel	Hanfodol	√	
Dealltwriaeth ac ymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywioldeb ac arferion cynhwysol	Hanfodol	√	√
Ymrwymiad i gynnal gwerthoedd Undeb y Myfyrwyr	Hanfodol	√	√
Y gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg	Dymunol	√	